Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2025/2026

Trefniant Y Cyngor

Clerc
Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS

Ffôn: 01286 871757

E-bost: clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

Gwefan: https://cyngorllanddeiniolen.cymru

Cynghorwyr:

Clwt y Bont -	Sedd Wag
Dinorwig	Sedd Wag
Deiniolen -	Parch Canon Idris Thomas,
	Emma Chappell,
	Sedd Wag
	Sedd Wag
Penisa'r-waun -	Phyllis Ellis,
	Elwyn Jones (Is Gadeirydd)
Brynrefail -	Ellen George
Bethel -	Gareth Wyn Griffiths
	Jane Pierce
	Sasha Williams
	Gareth Hughes (Cadeirydd)
Rhiwlas -	Rhian Evans-Hill
	Lowri James

Is Bwyllgorau:
Llwybrau: Jane Pierce, Phyllis Ellis, Lowri James, Idris Thomas, Elen George.
Dros y Clerc: Gareth Wyn Griffiths, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill
Prosiect Ysgolion (Rhodd o ystâd y diweddar Ken Harris): Phyllis Ellis, Gareth Hughes, Ellen George, Elwyn Jones
Is Bwyllgor Cyllid: Emma Chappell, Gareth Hughes, Gareth W Griffiths, Phyllis Ellis a Lowri James
Byddwn yn ffurfio Is bwyllgorau eraill os bydd yr angen

Cynrychiolaeth:
Llywodraethwyr Ysgolion: Phyllis Ellis, Elwyn Jones, Gareth Hughes
Parc Cenedlaethol: Rhian Evans Hill
Grŵp Ffocws Llechi: Parchg Idris Thomas
Un llais Arfon a Dwyfor: Unrhyw aelod yn rhydd i fynychu
Neuadd Rhiwlas: Lowri Ann James

Cynhelir Cyfarfodydd Cyngor yn Ysgol Penisa'r-waun ar nos Fawrth cyntaf o bob mis, ar wahân i fis Awst, lle nad oes cyfarfod, ac eithriad mis Ionawr, dibynnu ar ddyddiad. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r clerc.

Seddi Gwag
Ar hyn o bryd mae yna 4 sedd wag sydd angen ei llenwi yn Neiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont. Os oes rhywun a diddordeb, neu angen mwy o wybodaeth, peidiwch oedi i gysylltu â'r clerc. Mae yn bwysig ein bod yn llenwi'r seddi yma yn eich ardal, os am weld diffygion o fewn yr ardal yn cael eu gwella. Cysylltwch gyda'r clerc os am fwy o wybodaeth.

Gwybodaeth Ariannol
Praesept ariannol y Cyngor eleni oedd £31,000. Ar gyfartaledd mae hyn yn gost o tua £17.27 y tŷ i dai Band D. Mae hyn y bedwaredd flwyddyn i'r Cyngor gadw'r praesept yr un fath. Mae hyn mwy neu lai oherwydd y diffyg gwario a wnaethpwyd dros y cyfnod clo. Serch hynny, bydd hyn y flwyddyn olaf i hyn ddigwydd, gan fod y Cyngor yn barod wedi gorfod codi'r praesept am y flwyddyn nesaf i £56,000.
Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Awdit Cymru.
Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gweithgareddau'r Cyngor
Prif ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yw torri tyfiant ar Lwybrau cyhoeddus y plwyf, Cysgodfâu Bws, rhoi barn ar geisiadau cynllunio'r ardal, a thynnu i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddiffygion, neu faterion sy'n rhwystr yn yr ardal. Ond, mae'r Cyngor Cymuned yn ymestyn yn bellach o lawer na hyn, oherwydd gwacter yng nghyllideb Cyngor Gwynedd, mae'r Cyngor Cymuned yn ysgwyddo o ddyletswyddau bob blwyddyn. Eleni, bu i'r Cyngor ymrwymo i gyllido Tri Chlwb Ieuenctid yn yr ardal. 1 ym Methel, Deiniolen a Rhiwlas. Mae Bethel a Deiniolen wedi ffynnu yn dda, ond buan iawn distawodd clwb Rhiwlas gyda neb yn mynychu erbyn y diwedd.

Gobeithiwn allu ail cychwyn un Rhiwlas eto ym mis Medi ynghyd a Bethel a Rhiwlas.

Llwybrau a Meinciau

Eleni, bu i'r Cyngor barhau i gydweithio gyda'r adran Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd i barhau gyda gwella ein rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus, ond mae'r tywydd wedi bod yn ein herbyn tipyn eleni, ynghyd a chael trefniant yn ei le yn ystod yr Haf. Mae'r Cyngor wedi cyllido £30,000 eleni ar wella'r llwybrau, ynghyd a thorri a chynnal a chadw'r rhai sydd ar ein rhestr i ofalu amdanynt - rhestr a dynnwyd allan rhai blynyddoedd yn ôl bellach, oedd yn ein tyb ni yn rhai oedd yn cael eu defnyddio amlaf. Rydym wedi cael cais i agor a chlirio ambell un arall yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn gwneud hynny os ydym yn gweld fod digon o ofyn, neu fod y llwybr yn cysylltu yn berthnasol gydag un arall sydd yn cael ei drin yn rheolaidd. Rydym fel yr arfer yn torri'r llwybrau ddwywaith neu dair bellach yn ystod misoedd yr haf, ynghyd a pheintio a chynnal a chadw'r meinciau o gwmpas yr ardal. Cafodd mainc ym Mharc Chware Bethel ei malu, ac nid ydym wedi cael un Newydd, gan fod saw byrddau picnic arall yno yn barod.
Un peth sydd yn peri pryder i ni gyd ydi BAW CI. Mae'n amhosib i ni gadw ein pentrefi yn lân a thaclus tra mae perchnogion cŵn yn mynnu peidio codi baw eu ci. Mae yna finiau baw ci ym mhob ardal, ac erfyniwn arnoch i'w defnyddio os gwelwch yn dda. Mae baw ci ar ambell i lwybr mor ofnadwy nad ydym yn gallu torri'r llwybrau hynny, felly gofalwch eich bod yn codi baw eich ci ymhob man.

Cysodfannau Bws

Rydym wedi cael difrod ofnadwy i gysgodfa bws Bethel. Gobeithio ei fod yn gryf i wrthsefyll erbyn hyn. Gosodwyd cysgodfa bws newydd yn Rhiwlas Rydym wedi gwario yn agos i £4500 ar gysgodfâu bws eleni.

Cynllunio

Yn wythnosol, rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio o Gyngor Gwynedd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisiadau hyn. Er bod cynghorwyr yn ymweld â'r safleoedd yma, i ryw raddau rydym yn ddibynnol arnoch chi fel trigolion i ddod a phryderon neu wrthwynebiadau a syniadau i ni. Cofiwch eich ardal chi ydy hi, os allwn helpu, cysylltwch gyda chynghorwyr eich pentref, neu anfonwch e-bost i sylw'r clerc.

Rhodd Ystâd Mr Ken Harris

Fel y gwyddoch eisoes, mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio gyda'r 4 Ysgol gynradd y plwyf er mwyn dod a'r ysgolion a'r gymuned ynghyd i weld prosiectau gan blant yr Ysgolion er budd ein cymuned. Felly penderfynwyd cyfrannu £10,000 i bob un, ar gyfer y ddau brosiect, Ysgol Rhiwlas, Gwaun Gynfi, Penisa'r-waun a Bethel. Mae pwyllgor bach wedi sefydlu, sydd yn cyfarfod a'r ysgolion. Roedd pob ysgol gyda phrosiect unigol yn ystod y flwyddyn, i'w gwblhau erbyn yr haf, ond mae'r amserlen wedi mynd yn chwith, ac megis darfod y prosiect mae'r ysgolion. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl derbyn y gwariant, a'r Gwaith prosiect sydd wedi ei wneud, cyn symud ymlaen i weithio ar un prosiect mawr ar y cyd.

Grant Cyngor Gwynedd

Yn dilyn cais i Gyngor Gwynedd, derbyniwyd grant i roi 2 bot mawr o flodau ymhob pentref. Gobeithio bydd y potiau yn cael eu gosod yn fuan yn ystod y gwanwyn a blodau'n cael eu plannu. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i Gyngor Gwynedd am ariannu hyn.

Rhoddion

Yn flynyddol, mae'r Cyngor Cymuned yn rhannu rhoddion yn dilyn derbyn ceisiadau gan fudiadau o fewn y plwyf. Mae canllawiau a ffurflen gais i'w cael ar ein gwefan neu trwy gysylltu â'r clerc. Y cais ynghyd a mantolen ariannol i gyrraedd y clerc erbyn 20fed o Fedi yn flynyddol.
Eleni, cyfrannwyd cyfanswm o £4650 rhoddion i:

Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun,
Clwb Bowlio Bethel,
Clwb Snwcer Deiniolen,
Clwb Crefft Rhiwlas,
Eisteddfod Undebol Penisa'r-waun,
Clwb Rhiwen,
Pwyllgor Pentra Deiniolen,
Ysgol Gwaun Gynfi (Urdd)
Llais Ogwan
Cyfeillion Rhiwlas
Neuadd Rhiwlas
Clwb Snwcer Bethel
Eisteddfod Bethel
Clwb Bro Bethel

Ynghyd a hyn, cyfrannwyd £4000 tuag at 2 brosiect arbennig am reswm teilwng a roddwyd gerbron y Cyngor:

Clwb Rygbi Caernarfon
Partneriaeth Dyffryn Peris

Amcanion Y Cyngor am 2026/2027

Eleni, bydd Y Cyngor yn canolbwyntio ar gwblhau gwelliannau i'r Llwybrau cyhoeddus. Mae sawl llwybr dal angen ei drin a'i wneud yn ddiogel i gerdded arno. Fel y gwyddoch mai blynyddoedd o waith wedi ei adael ar ein llwybrau sydd heb eu cynnal, a bellach nid oes gan y Cyngor Sir y cyllid i wneud hynny, ond mae'r Cyngor Cymuned wedi rhoi addewid i wneud hyn yn dilyn y cyfnod clo.

Dal i gynnal Clybiau Ieuenctid.
Bydd y Cyngor yn dal i weithio gyda phartneriaeth Dyffryn Peris
Mae'r Cyngor wedi rhoi addewid o £3000 i gychwyn Partneriaeth Dyffryn Peris, gyda'r gobaith o weld y cynllun yma yn ffrwythloni er budd ein cymunedau.

Cyd weithio gyda'r Ysgolion Cynradd ar y prosiectau.

Parhau i gefnogi prosiectau ein cymuned.

Mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi Cofnodion pob cyfarfod ar ein gwefan a hefyd yn rhoi crynodeb o'r cofnodion yn Eco'r Wyddfa a Llais Ogwen yn fisol. Estynnir croeso i unrhyw un sydd am fwy o fanylion i gysylltu â'r clerc, neu anfon neges os gallwn fod o gymorth i chi yn yr ardal.